



Ein cyf/Our ref: MA/RE/3081/23

At:  
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru  
Heddluoedd Cymru

Copiâu at:  
Prif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru  
Prif Gwnstablaid Heddluoedd yng Nghymru  
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

14 Rhagfyr 2023

Annwyl Gomisiynwyr,

## Setliad Dros Dro yr Heddlu 2024-25

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch ei Setliad Dros Dro ar gyfer Plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2024-25.

Nodwyd yng nghyhoeddiad y Swyddfa Gartref, o ystyried elfennau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd, y bydd holl heddluoedd Cymru yn cael cynnydd o 2.054% mewn cyllid craidd yn 2024-25.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys manylion y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae'r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a'r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 10 Ionawr 2024. Dylid anfon ymatebion at:

Andrea Melvin, [LGFPSettlement@llyw.cymru](mailto:LGFPSettlement@llyw.cymru)

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ar b'un a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)  
[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bosibl y caiff copïau o ymatebion eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Atgoffir Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr holl ymatebion cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2024-25 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Bwriedir cynnal y ddadl ar yr adroddiad hwn yn y Senedd ym mis Mawrth 2024.

Yr eiddoch yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

## Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2024-25

**Tabl 1a: Aseiad o Wariant Safonol (£m)<sup>1</sup>**

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Dyfed-Powys	36.618	37.049	37.492	33.904	34.368	34.936
Gwent	54.593	55.236	55.896	50.547	51.239	51.996
Gogledd Cymru	52.743	53.377	54.012	48.845	49.530	50.387
De Cymru	127.269	128.757	130.295	117.826	119.425	120.772
Cyfanswm	271.223	274.419	277.694	251.122	254.563	258.090

**Tabl 1b: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)<sup>1</sup>**

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Dyfed-Powys	13.355	13.150	13.030	8.667	8.492	8.413
Gwent	31.701	31.790	31.857	25.939	26.069	26.196
Gogledd Cymru	22.496	22.614	22.523	16.513	16.334	16.361
De Cymru	75.848	75.845	75.989	62.352	62.575	62.501
Cyfanswm	143.400	143.400	143.400	113.470	113.470	113.470

**Tabl 1c: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)<sup>1,2,3,4</sup>**

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Dyfed-Powys	36.993	40.967	44.497	52.272	54.996	56.379
Gwent	41.287	46.660	51.539	62.401	65.967	67.730
Gogledd Cymru	50.738	56.101	61.153	72.125	76.011	77.882
De Cymru	84.864	96.895	107.639	132.165	140.078	144.315
Cyfanswm	213.882	240.622	264.828	318.964	337.052	346.307

**Tabl 1d: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)<sup>1,2,3,4</sup>**

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Dyfed-Powys	50.348	54.116	57.528	60.939	63.488	64.792
Gwent	72.988	78.451	83.396	88.341	92.036	93.926
Gogledd Cymru	73.234	78.715	83.677	88.638	92.346	94.243
De Cymru	160.712	172.740	183.629	194.517	202.653	206.816
Cyfanswm	357.282	384.022	408.228	432.434	450.522	459.777

**Tabl 1e: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)**

	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Dyfed-Powys	2.100%	7.484%	6.304%	5.929%	4.183%	2.054%
Gwent	2.100%	7.484%	6.304%	5.929%	4.183%	2.054%
Gogledd Cymru	2.100%	7.484%	6.304%	5.929%	4.183%	2.054%
De Cymru	2.100%	7.484%	6.304%	5.929%	4.183%	2.054%
Cyfanswm	2.100%	7.484%	6.304%	5.929%	4.183%	2.054%

## Nodiadau:

1. Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, bu'r Swyddfa Gartref yn trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni chaiff y cyllid ychwanegol hwn ei drosglwyddo mwyach. Yn hytrach, y Swyddfa Gartref sy'n ei ddarparu drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad i hyn, bu cyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona £29.93m yn llai y llynedd, ac mae hyn wedi ei bennu ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd i ddod. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac nid yw'n golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol ar gyfer unrhyw Heddlu.
2. Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b) ynghyd â swm y 'cyllid gwaelodol' a sicrhawyd gan y Swyddfa Gartref.
3. Dangosir y ffigurau ar gyfer 2023-24 cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, fel y'i nodir ym mharagraff 4.8 o Adroddiad Grant yr Heddlu.
4. Mae ffigurau ar gyfer 2023-24 wedi'u hailddatgan i gynnwys y cyllid yn ystod y flwyddyn a ddyfarnwyd i heddluoedd ar gyfer cytundeb cyflog 2023-24.